# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## 6ED EBRILL 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, A.P. Cooper, D.B. Davies, I.W. Davies, J.A. Davies, T. Davies, W.T. Evans, J.K. Howell, I.J. Jackson, A.W. Jones, H.I. Jones, W.J. Lemon, M.J.A. Lewis, K. Madge, M.K. Thomas and J.S. Williams

**Hefyd yn bresennol fel Aelod Lleol:**
Y Cynghorydd E. Williams, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch ceisiadau cynllunio W/34901 a W/34931.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

J. Edwards, Y Rheolwr Rheoli Datblygu
G. Noakes, Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Rhanbarth y Dwyrain]
J. Thomas, Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Rhanbarth y De]
S.W. Thomas – Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Rhanbarth y Gorllewin]
C Davies, Swyddog Rheoli Datblygu
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol - Cydgysylltu Cynllunio
J Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00yb - 12.30yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D.C. Evans.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| D. Davies | **5 – Cais Cynllunio W/34225 -** Darparu llwybr aml-ddefnydd ar hyd pen isaf Dyffryn Tywi. Byddai'r cais yn defnyddio rhannau o hen goridor trên a hawl tramwy sy'n bodoli eisoes, ar dir amaethyddol ar hyd Llwybr Beicio Dyffryn Tywi rhwng Nantgaredig a Felin-Wen, Caerfyrddin | Cadeirydd Cymdeithas Bysgota Amatur Sir Gaerfyrddin |
| A. Lenny | **5 – Cais Cynllunio W/35161 -** Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod ac adnewyddu briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom ym Mharc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX. | Aelod o'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am y Felodrom |
| A. Lenny | **5 – Cais Cynllunio W/35162 -** Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod a disodli briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom ym Mharc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX | Aelod o'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am y Felodrom |
| A. Lenny | **5 – Cais Cynllunio W/35169 -** Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod a disodli briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom ym Mharc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX | Aelod o'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am y Felodrom |
| A. Lenny | **5 – Cais Cynllunio W/35170 -** Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod a disodli briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom ym Mharc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX | Aelod o'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am y Felodrom |
| H.I. Jones | **5 – Cais Cynllunio W/35161 -** Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod a disodli briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom ym Mharc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX | Mae'n defnyddio'r parc oddi mewn i'r Felodrom yn gyson fel aelod o glwb y Quins. |
| H.I. Jones | **5 – Cais Cynllunio W/35162 -** Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod a disodli briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom ym Mharc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX | Mae'n defnyddio'r parc oddi mewn i'r Felodrom yn gyson fel aelod o glwb y Quins. |

| | | |
|---|---|---|
| H.I. Jones | **5 – Cais Cynllunio W/35169 -** Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod a disodli briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom ym Mharc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX | Mae'n defnyddio'r parc oddi mewn i'r Felodrom yn gyson fel aelod o glwb y Quins. |
| H.I. Jones | **5 – Cais Cynllunio W/35170 -** Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod a disodli briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom ym Mharc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX | Mae'n defnyddio'r parc oddi mewn i'r Felodrom yn gyson fel aelod o glwb y Quins. |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 **PENDERFYNWYD** nodi y bydd y penderfyniad ynghylch y cais canlynol yn cael ei ohirio er mwyn ymgynghori rhagor, fel y nodir yn yr Atodiad.

| | |
|---|---|
| **E/33695** | **Cais cynllunio llawn i godi uned ddofednod ar fferm er mwyn cadw ieir maes (i gynhyrchu wyau) ynghyd â biniau bwydydd cysylltiedig, mynediad mewnol o'r fferm a gwaith cysylltiedig yng Ngodre Garreg, Llangadog, SA19 9DA** |

3.2 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| **E/34849** | **Un breswylfa (anghenion lleol) ar dir gyferbyn â Tegfan, Talyllychau, Llandeilo, SA19 7YL**<br><br>Nodwyd bod yr adroddiad yn datgan ‘Cyngor Cymuned Maenordeilo a Salem – Nid oes sylwadau wedi dod i law hyd yma’, ond dylai hyn ddatgan ‘Cyngor Cymuned Talyllychau – Nid oes sylwadau wedi dod i law hyd yma.’ |
| **E/35109** | **Newid defnydd o Ddosbarth A1 (Adwerthu) i Ddosbarth A3 (Bwyd a Diod) gan gynnwys gosod seddau ategol ac offer echdynnu ac awyru yn 9 Adeiladau’r Cross Inn, Stryd y Coleg, Rhydaman, SA18 3AL** |

3.3 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** wrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio:-

| | |
|---|---|
| **E/33595** | **Addasu tanc storio dŵr a'r sied offer i fod yn llety gwyliau ar dir yn Bryngoiallt, Felin-gwm, Caerfyrddin, SA32 7PX** |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle.

| | |
|---|---|
| **S/35189** | **Lleoli dau dŷ ar wahân ar dir ar safle hen felin goed Cwmblawd, Heol Llannon, Pontyberem, Llanelli, SA15 5NB**<br><br>**Y RHESWM:** Er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle yn sgil hanes y safle o ran cynllunio. |

## 5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** **PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| **W/31230** | **16 uned breswyl ynghyd â mannau parcio cyhoeddus a ffyrdd cysylltiedig ar gyfer y safle. Mae'r cais yn cynnwys cael gwared ar goed niferus a deiliach eraill. Mae'r unedau preswyl yn cynnwys 4 tŷ ar wahân â 4 ystafell wely yr un, 5 tŷ fforddiadwy â 2 ystafell wely yr un, 1 tŷ ar wahân â 2 ystafell wely, a 6 thŷ pâr â 3 ystafell wely yr un ar dir y tu cefn i Maesgriffith, Stryd Fawr, Llansteffan, Sir Gaerfyrddin, SA33 5JW** |
| **W/34225** | **Darparu llwybr aml-ddefnydd ar hyd pen isaf Dyffryn Tywi. Byddai'r cais yn defnyddio rhannau o hen goridor trên a hawl tramwy sy'n bodoli eisoes, ar dir amaethyddol ar hyd Llwybr Beicio Dyffryn Tywi rhwng Nantgaredig a Felin-Wen, Caerfyrddin**<br><br>[SYLWER: Roedd y Cynghorydd D. Davies wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y Siambr tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod ac ni wnaeth gymryd rhan yn y penderfyniad yn ei chylch].<br><br>Amod ychwanegol a fydd yn cynnwys gatiau rheoli mynediad. |

**5.2 PENDERFYNWYD** caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

[Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd A. Lenny y Gadair er mwyn gallu rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio W/35161, W/35162, W/35169 a W/35170, a gadawodd Siambr y Cyngor wedi hynny. Cadeiriodd y Cynghorydd D. Davies y cyfarfod tra oedd yr eitemau uchod yn cael eu hystyried.
Bu i'r Cynghorydd H.I. Jones ddatgan buddiant mewn perthynas â Cheisiadau Cynllunio W/35161, W/35162, W/35169 a W/35170 a gadawodd Siambr y Cyngor.]

| | |
|---|---|
| **W/35161** | **Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod ac adnewyddu briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom. Atgyweirio ac ailosod y rheilen a'r pyst concrid gwreiddiol o amgylch ymyl y trac. Atgyweirio'r concrid ar risiau'r felodrom ar ochr ogleddol y trac. Atgyweirio arwyneb concrid presennol y felodrom. Ymestyn ymyl arwyneb y felodrom ar yr ochr fewn i greu "Parth Glas" diogel. Gosod ffens ddiogelwch newydd ar ymyl y trac yn Felodrom Parc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX** |
| **W/35162** | **Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod ac adnewyddu briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom. Atgyweirio ac ailosod y rheilen a'r pyst concrid gwreiddiol o amgylch ymyl y trac. Atgyweirio'r concrid ar risiau'r felodrom ar ochr ogleddol y trac. Atgyweirio arwyneb concrid bresennol y felodrom. Ymestyn ymyl arwyneb y felodrom ar yr ochr fewn i greu "Parth Glas" diogel. Gosod ffens ddiogelwch newydd ar ymylon y trac yn Felodrom Parc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX** |
| **W/35169** | **Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys: atgyweirio, ailosod ac adnewyddu briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom. Atgyweirio ac ailosod y rheilen a'r pyst concrid gwreiddiol o amgylch ymyl y trac. Paratoi ac ailaddurno'r rheilen a'r pyst concrid gwreiddiol o amgylch ymyl y trac. Atgyweirio'r concrid ac ailosod elfennau sydd ar goll neu sy'n amhriodol ar risiau'r felodrom ar ochr ogleddol y trac. Rhoi arwyneb concrid newydd yn lle arwyneb concrid presennol y felodrom. Ymestyn ymyl arwyneb y felodrom ar yr ochr fewn i greu "Parth Glas" diogel. Gosod ffens ddiogelwch newydd ar ymylon y trac. Trin arwyneb concrid y felodrom i alluogi arwyneb y trac i fodloni meini prawf perfformiad British Cycling yn Felodrom Parc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX** |

| | |
|---|---|
| **W/35170** | **Gwarchod, adnewyddu a gwella Felodrom Parc Caerfyrddin gan gynnwys atgyweirio, ailosod ac adnewyddu briciau sydd wedi torri neu sydd ar goll ar ymylon terfyn allanol trac y felodrom. Atgyweirio ac ailosod y rheilen a'r pyst concrid gwreiddiol o amgylch ymyl y trac. Paratoi ac ailaddurno'r rheilen a'r pyst concrid gwreiddiol o amgylch ymyl y trac. Atgyweirio'r concrid ac ailosod elfennau sydd ar goll neu sy'n amhriodol ar risiau'r felodrom ar ochr ogleddol y trac. Rhoi arwyneb concrid newydd yn lle arwyneb concrid presennol y felodrom. Ymestyn ymyl arwyneb y felodrom ar yr ochr fewn i greu "Parth Glas" diogel. Gosod ffens ddiogelwch newydd ar ymylon y trac. Trin arwyneb concrid y felodrom i alluogi arwyneb y trac i fodloni meini prawf perfformiad British Cycling yn Felodrom Parc Caerfyrddin, Lôn Morfa, Caerfyrddin, SA31 3AX** |

5.3 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safle.

| | |
|---|---|
| **W/34901** | **Tŷ ar wahân ar dir ym Mounthill, Mount Pleasant, Pensarn, Caerfyrddin, SA31 2LJ**<br><br>Roedd sylwadau wedi dod i law mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig yr oedd swyddogion wedi argymell ei fod yn cael ei wrthod.<br><br>Yn sgil y sylwadau uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r Pwyllgor ymweld â'r safle.<br><br>**Y RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle. |
| **W/34931** | **W/34931 - Newid wal derfyn gerrig ym mlaen yr eiddo er mwyn hwyluso mynediad i gerbydau ar dir ym Mounthill, Mount Pleasant, Pensarn, Caerfyrddin, SA31 2LJ**<br><br>Roedd sylwadau wedi dod i law mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig yr oedd swyddogion wedi argymell ei fod yn cael ei wrthod.<br><br>Yn sgil y sylwadau uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r Pwyllgor ymweld â'r safle.<br><br>**Y RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle. |

5.4 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** gymeradwyo'r rhesymau a'r amodau a ddrafftiwyd gan y Pennaeth Cynllunio, fel y'u manylwyd yn yr adroddiad, mewn perthynas â'r cais cynllunio canlynol y rhoddodd y Pwyllgor Cynllunio ganiatâd cynllunio iddo, yn groes i argymhelliad y swyddog, ar 21ain Mawrth, 2017:-

| | |
|---|---|
| **W/35171** | **Adeiladu caban pren ger yr adeiladau presennol. Mae angen llety ychwanegol er mwyn i'r busnes gwyliau presennol ddarparu lleoedd ychwanegol. Byddai'r llety yn hygyrch i bobl mewn cadeiriau olwyn a'r rhai llai abl er mwyn cefnogi ein model busnes i ddarparu llety hygyrch o ansawdd uchel, sy'n brin yn yr ardal hon, yng Nghreigiau Bach, Llangain, Caerfyrddin SA33 5AY** |

## 6. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9FED MAWRTH, 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 9fed Mawrth 2017, gan eu bod yn gywir.**

*Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar Agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw we-ddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*

**CADEIRYDD** ____________________ **DYDDIAD** ____________________